**CYNGOR GWYNEDD**

**Anfonwch geisiadau ynghyd ag unrhyw ddogfennau cefnogol**
**drwy e-bost: trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru**
**neu drwy'r post at:**
**Gwarchod Y Cyhoedd,**
**Ffordd Y Cob,**
**Pwllheli,**
**LL53 5AA.**

# Cais i Amrywio tystysgrif gymeradwyo a ddyroddwyd o dan adran 70 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU A'R NODIADAU CANLLAW YN GYNTAF**

**Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn eglur mewn llythrennau bras gan ddefnyddio inc. Defnyddiwch ragor o daflenni os oes angen (wedi'u marcio gyda'r pennawd "Taflen barhad – cais am dystysgrif gymeradwyo" a chynnwys rhif y cwestiwn perthnasol ac enw a chyfeiriad yr ymgeisydd). Efallai y byddwch eisiau cadw copi o'r ffurflen orffenedig ar gyfer eich cofnodion eich hun.**

## Rhan 1 – Manylion y cais

### 1.1 Â pha Fangre/Cerbyd y mae eich cais yn berthnasol?

Nodwch enw/cyfeiriad y fangre/Rhif y Dystysgrif Gymeradwyo.

**Beth ydych chi eisiau ei amrywio?**

A. **Ychwanegu Triniaeth(au) Arbennig,** os felly, nodwch y Driniaeth isod.

B. **Dileu Triniaeth(au) Arbennig,** os felly, nodwch y Driniaeth isod.

C. **Newidiadau i strwythur neu ddyluniad y fangre,** os felly, nodwch y newidiadau isod e.e. gweithfan neu ystafell ychwanegol.

D. **Newid enw deiliad y dystysgrif,** os felly, nodwch isod e.e. newid enw ar ôl priodi.

## Rhan 2 - Manylion yr Ymgeisydd (llenwch fel sy'n briodol)

*Os ydych chi'n unigolyn, llenwch Adran A. Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes neu sefydliad (fel cwmni neu bartneriaeth), llenwch Adran B.*

### Adran A - Ymgeisydd unigol

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Dr ☐ Arall ☐ (nodwch os gwelwch yn dda) ..........................

**2.2 Cyfenw:** ……………………………………………….

**2.3 Enw(au) cyntaf:** ………………………………………………

**2.4 Rhif ffôn cyswllt:** ………………………………………………

**2.5 Cyfeiriad e-bost (os yw'n berthnasol):** ……………………………………………………………………….

**2.6 Dyddiad geni:** ………………………………………..

**2.7 Cyfeiriad yr ymgeisydd (preswyl neu fusnes):**

……………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………….. Cod post: ……………………………………..

## Adran B - Cais ar ran busnes neu sefydliad

**2.11 Enw'r busnes neu'r sefydliad sy'n gwneud y cais:**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Defnyddiwch enw masnachu neu enw cofrestredig y busnes neu'r sefydliad.*]

**2.12 Rhif cofrestru'r cwmni:**

……………………………………………………………………………………………………………

**2.13 Math o gwmni:**

……………………………………………………………………………………………………………
[*Er enghraifft, Cwmni Cyfyngedig Preifat, Partneriaeth, Unig Fasnachwr.*]

**2.14 Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon ar ran y busnes neu'r sefydliad, nodwch eich enw llawn a'ch rôl yn y busnes *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2)*:**

**Enw llawn:** ……………………………………………………………………….

**Rôl:** ……………………………………………………………………………….
[*Er enghraifft, Perchennog, Rheolwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Cyfarwyddwr Gweithredol.*]

**2.15 Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y busnes neu'r sefydliad**:

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………..… Cod Post: ………………………………………….

## Rhan 3 - Manylion y Fangre neu'r Cerbyd

**3.1 Enw masnachu a ddefnyddir yn y fangre / Cerbyd (os yw'n berthnasol):**

**3.2 Cyfeiriad y fangre neu Rif Cofrestru'r Cerbyd. (Os mai cerbyd, ble bydd y cerbyd wedi'i leoli)**

**3.3 Rhif ffôn y fangre (os yw'n berthnasol):**

**3.4 Manylion cyfeiriad gwefan ac/neu unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd ar gyfer dibenion busnes (os yw'n berthnasol):**

**3.5 Rhestr o driniaethau arbennig a fydd yn cael eu rhoi yn y fangre yn dilyn yr amrywiad *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4)*:**

**3.6 A oes unrhyw weithgareddau eraill (er enghraifft gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig) yn cael eu gwneud yn y fangre? *(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5)***

**Os oes, rhestrwch y gweithgareddau eraill hynny:**

**3.7 Faint o ddeiliaid trwydded fydd yn gweithio o'r fangre?**

**3.8 Faint o weithfannau sydd yn y fangre yr ydych chi'n ceisio cymeradwyaeth ar ei chyfer?** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 6)***

**3.9 Pa gyflenwad dŵr a ddefnyddir ar gyfer y fangre?** ☐Cyflenwad dŵr prif gyflenwad ☐Cyflenwad dŵr preifat
Cyflenwad dŵr prif gyflenwad a phreifat☐

**3.10 Nodwch nifer a lleoliad unrhyw fasnau golchi dwylo sydd yn y fangre:**

**3.11 Nodwch a yw pob basn golchi dwylo yn darparu:**

- **Cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer** Ydi ☐ Nac Ydi ☐
- **Sebon hylif neu ewyn** Ydi ☐ Nac Ydi ☐
- **Tywelion papur tafladwy mewn dosbarthwr caeedig** Ydi ☐ Nac Ydi ☐

**3.12 A yw'r holl osodiadau a ffitiadau yn y man gwaith triniaethau arbennig** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7)*** **mewn cyflwr da ac wedi'u gwneud o ddeunyddiau difandwll sy'n hawdd i'w glanhau a'u diheintio?** Ydi ☐ Nac Ydi ☐

**3.13 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y fangre mewn cyflwr da?** Ydi ☐ Nac Ydi ☐

**3.14 A yw'r holl waliau a'r lloriau yn y fangre wedi'u gwneud o ddeunyddiau sy'n hawdd i'w glanhau a'u diheintio?**
Ydi ☐ Nac Ydi ☐

**3.15 Rhowch fanylion llawn yr offer a'r cynhyrchion a ddefnyddir wrth sterileiddio, diheintio a glanhau unrhyw offerynnau, offer, gosodiadau a ffitiadau (gan gynnwys sinciau):**

**3.16 Nodwch ba ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud ar gyfer storio, casglu a gwaredu gwastraff (gan gynnwys offer miniog -** ***gweler Nodyn Cyfarwyddyd 8)*****:**

**3.17 Nodwch ba ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud o ran:**

- **Offer Amddiffynnol Personol (PPE):**
- **Cymorth Cyntaf**

**3.18 Nodwch ba ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud ar gyfer storio a chadw cofnodion o ran:**
- **Gwybodaeth i gleientiaid / Cyflenwyr a Defnyddio Cynnyrch / Prosesau Glanhau a Diheintio / Cynnal a Chadw a Gwasanaethu Offer.**

## Rhan 4 – Amseroedd gweithredu

**Cwblhewch y tabl isod i nodi amseroedd agor a chau arfaethedig y fangre neu'r cerbyd:**

| | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| Dydd Llun | | |
| Dydd Mawrth | | |
| Dydd Mercher | | |
| Dydd Iau | | |
| Dydd Gwener | | |
| Dydd Sadwrn | | |
| Dydd Sul | | |

[*Rhowch amseroedd gan ddefnyddio cloc 24 awr (e.e. 16:00) a dim ond rhoi manylion ar gyfer dyddiau'r wythnos pan yr ydych chi'n bwriadu defnyddio'r fangre neu'r cerbyd i roi triniaethau arbennig.*]

## Rhan 5 – Amrywiol (llenwch fel y bo'n berthnasol)

### 5.1 Nodwch unrhyw wybodaeth arall y credwch chi sy'n berthnasol i'ch cais o safbwynt y fangre neu'r cerbyd:

…………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

## Rhan 6 - Datganiad a Rhestr Wirio (cwblhewch/ticiwch)

**Mae'r datganiad hwn i'w gwblhau gan ddeilydd y dystysgrif.**

**Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir. Rwy'n deall ei bod hi'n drosedd o dan adran 82(7) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol yn y cais hwn, neu'n gysylltiedig â'r cais hwn, neu fy mod yn ddiofal p'un ai yw'r wybodaeth yn ffug neu'n gamarweiniol.**

**Rwy'n deall y gall rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol (yn fwriadol neu'n ddiofal) arwain at ddirymu fy nhystysgrif gymeradwyo.**

☐

**Rwyf hefyd yn cadarnhau:**

☐ **Bod gan yr unigolyn/y busnes neu'r sefydliad yr hawl i fod yn y fangre neu'r cerbyd *[dilëwch fel y bo'n briodol]***

☐ **Rwyf yn ymwybodol o fy nghyfrifoldebau i gael polisi yswiriant dilys ar gyfer y fangre/cerbyd *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 13)*,**

☐ **Rwyf wedi darllen ac yn deall yr amodau trwyddedu mandadol a fydd ynghlwm wrth fy nhystysgrif gymeradwyo, ac**

☐ **Rwy'n deall beth fydd canlyniadau peidio â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu mandadol hynny. *(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 14)***

**Rhestr wirio:**

- **Mae'r ffi am y cais wedi'i dalu/gynnwys *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 15)*** ☐
- **Ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn a'i lofnodi *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 16)*** ☐
- **Mae cynllun o'r fangre neu'r cerbyd wedi'i gynnwys *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 17)*** ☐
- **Llun lliw diweddar o'r cerbyd wedi'i gynnwys (os yn berthnasol) *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9)*** ☐
- **Copi o ddogfennau adnabod wedi'i gynnwys *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 19)*** ☐
- **Rwy'n deall y gellir gwrthod y cais os na chydymffurfir â'r gofynion uchod** ☐

## Rhan 7 - Llofnod

**7.1. Llofnod yr unigolyn sy'n gwneud cais am amrywio tystysgrif gymeradwyo**

**Llofnod:** ………………………………………….……..

**Printio enw:** ……………………………………..……..

**Dyddiad:**..........................................................................

**7.1. Llofnod ar ran y busnes/sefydliad sy'n gwneud cais i amrywio tystysgrif gymeradwyo**

**Llofnod** ………………………………………….……..

**Printio enw:** ……………………………………..……..

**Dyddiad:**..........................................................................

**Llofnod:** ……………………………………….……..

**Printio enw:** ……………………………………..……..

**Dyddiad:........................................................................** ……………………………………….....................

[*Ble cyflwynir y cais ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig yr unigolyn.*]

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**Nodyn 1: Enw'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyhoeddi**
Wrth wneud cais am dystysgrif gymeradwyo -

(a) os yw'r fangre yn ardal yr awdurdod lleol, rhaid gwneud cais i'r awdurdod lleol hwnnw;
(b) os ystyrir bod y cerbyd yn cael, neu'n debygol o gael, ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod lleol, rhaid gwneud cais i'r awdurdod lleol hwnnw.

**Nodyn 2: Enwi unigolyn yn Rhan 2 Adran B 2.14**
Os yw'r cais yn cael ei wneud ar ran busnes neu sefydliad, yr unigolyn sydd angen ei enwi ar y ffurflen gais yw unigolyn megis y Perchennog, Rheolwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Rheolwr Gweithredol y busnes/sefydliad.

**Nodyn 3: Enwi unigolyn yn Rhan 2 Adran B 2.16**
Rhaid i ymgeiswyr enwi unigolyn a fydd yn bwynt cyswllt ar gyfer y cais, yn ogystal â'r pwynt cyswllt drwy gydol cyfnod y dystysgrif gymeradwyo dan sylw. Gall yr unigolyn hwn fod yn rheolwr rhanbarthol, rheolwr ardal, rheolwr safle ar gyfer y fangre/cerbyd a bod yn rhan o reolaeth weithredol/feunyddiol y fangre/cerbyd. Gall yr unigolyn yma fod yr un unigolyn â'r sawl a enwir yn **Rhan 2 Adran B 2.14** ond bydd gofyn iddo ddarparu dogfennau adnabod a rhaid iddo feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir dilys.

**Nodyn 4: Ystyr triniaeth arbennig**
Yr un ystyr sydd i driniaethau arbennig aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio, a nodir yn adran 94(1) Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

**Nodyn 5: Gwneud gweithgareddau eraill yn ystod cwrs busnes**
Gall ymgeisydd gynnwys manylion gweithgareddau eraill sy'n cael eu rhoi yn ystod cwrs busnes o'r fangre/cerbyd ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig. Er enghraifft, gweithgareddau fel triniaethau harddwch, trin gwallt, manwerthu ac ati.

**Nodyn 6: Nifer y gweithfannau**

Mae'r term "gweithfan" yn golygu'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys -

(1.a) gwely, cadair neu gyffelyb, i'r cleient eistedd neu orwedd i gael triniaeth arbennig gan ddeilydd y drwydded,
(1.b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig (os yn berthnasol), ac
(1.c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Wrth benderfynu ar faint o weithfannau y mae ymgeisydd yn gofyn am gymeradwyaeth ar eu cyfer, rhaid i'r ymgeisydd ystyried maint a siâp y fangre/cerbyd a gofalu bod digon o le rhwng pob gweithfan, fel bod modd rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan. Darllenwch y canllawiau anstatudol am fwy o wybodaeth.

**Nodyn 7: Man gwaith triniaethau arbennig**

Mae'r term "man gwaith triniaethau arbennig" yn golygu man wedi ei ddynodi'n benodol at ddiben rhoi triniaethau arbennig, sydd -

(a) yn gorfod cynnwys o leiaf -

  i. un weithfan,
  ii. un basn golchi dwylo,
  iii. un bin gwastraff,
  iv. un bin offer miniog (os yn berthnasol), a

(b) gall hefyd gynnwys cyfleusterau a chyfarpar i gefnogi rhoi triniaeth arbennig.

**Nodyn 8: Offer miniog**
Mae'r term "offer miniog" yn golygu gwrthrychau neu offerynnau sy'n gallu torri, crafu, gwneud twll neu achosi anaf i'r croen ac mae'n gallu cynnwys pob math o nodwyddau a raseli untro.

**Nodyn 9: Llun o gerbyd**
Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno llun lliw diweddar o'r cerbyd sydd i'w gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Mae'n rhaid cael llun ar gyfer pob cerbyd gan gynnwys y rheiny efo rhif cofrestru.

**Nodyn 10: Lleoliad y cerbyd**
Bydd tystysgrif gymeradwyo yn rhoi awdurdod i roi triniaethau arbennig o gerbyd unrhyw le yng Nghymru, ond gofynnir i ymgeiswyr ddarparu mwy o fanylion am leoliad arferol y cerbyd yng Nghymru ac ardaloedd yr awdurdod lleol ble mae'r cerbyd yn debygol o gael ei ddefnyddio i roi triniaethau arbennig.

**Nodyn 11: Trwydded triniaeth arbennig**
Mae gan drwydded triniaeth arbennig yr un ystyr ag a roddir yn adran 59 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, h.y. trwydded a ddyroddir gan awdurdod lleol, sy'n awdurdodi i'r driniaeth arbennig (neu'r triniaethau arbennig) a bennir yn y drwydded gaei ei rhoi (neu eu rhoi) gan ddeiliad y drwydded.

**Nodyn 12: Rhif y Drwydded**

Ystyr "rhif y drwydded" yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno ac a bennir ynddi.

**Nodyn 13: Sicrwydd polisi yswiriant *('insurance cover')***
Mae'r term "polisi yswiriant dilys" yn golygu polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ymgeisydd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Nodyn 14: Diffyg cydymffurfio ag amodau trwyddedu mandadol**
Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gellir dirymu tystysgrif os yw awdurdod lleol yn fodlon bod deiliad y drwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol sy'n berthnasol, a bod y diffyg cydymffurfio yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd pobl. Gweler adran 73 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 am ragor o fanylion.

**Nodyn 15: Talu'r ffi am gais**
Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r dystysgrif am fwy o wybodaeth am y swm i'w dalu am ffi am gais a sut y dylent dalu'r ffi am y cais. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 16: Cyflwyno cais**
Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r dystysgrif i gael rhagor o wybodaeth am sut i gyflwyno cais am drwydded gymeradwyo. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 17: Cynllun o'r fangre neu'r cerbyd**
Rhaid cyflwyno cynllun efo'r cais a rhaid iddo gynnwys (ble'n briodol) -

(a) y mynedfeydd i'r fangre neu'r cerbyd a'r allanfeydd ohoni neu ohono,
(b) mesuriadau a disgrifiad o siâp y mannau (fel ystafelloedd) (os oes rhai) sydd yn y fangre neu'r cerbyd,
(c) y mynedfeydd i'r mannau (megis ystafelloedd) (os oes rhai) sydd yn y fangre neu'r cerbyd, a'r allanfeydd ohonynt,
(d) lleoliad y canlynol (os oes rhai) -

i. sinciau cyfarpar,
ii. biniau offer miniog,
iii. ystafelloedd staff,
iv. mannau, cyfleusterau neu ystafelloedd storio ar gyfer cynhyrchion ac/neu gyfarpar,
v. toiledau,
vi. mannau neu ystafelloedd aros,
vii. basnau golchi dwylo,
viii. biniau gwastraff,
ix. ffenestri, a
x. gweithfannau.